# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Mehefin 2017

Amser: 08.30 - 08.43

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Dirprwy Lywydd.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Byddai'r Cyfarfod Llawn yn dechrau gyda datganiadau gan y Llywydd a'r Prif Weinidog ar yr ymosodiadau yn Llundain.

- Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn awgrymu y dylid gohirio'r Penderfyniad Ariannol ar gyfer Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gan i wybodaeth newydd ddod i law ar ôl i'r pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

- Dywedodd Jane Hutt wrth y pwyllgor y byddai'r Penderfyniad Ariannol ar gyfer Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn aros ar yr agenda, ond na fyddai'r Gweinidog yn ei gynnig, a byddai'n dweud hynny yn ei gyfraniad yn y Ddadl yng Nghyfnod 1. Y disgwyl bellach yw y caiff y Penderfyniad Ariannol ei gynnig yn ystod tymor yr hydref.

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes..

**Dydd Mercher**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y ddadl fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 21 Mehefin 2017 –**

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

**Dydd Mercher 28 Mehefin 2017 –**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar ei adroddiad ar ddyfodol polisïau amaethyddol a datblygu gwledig yng Nghymru (60 munud) – *eitem wedi'i symud o 21 Mehefin*
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

## 4 Rheolau Sefydlog

### 4.1 Diwygio Rheolau Sefydlog: Proses y gyllideb

- Trafododd y Rheolwyr Busnes bapur yn nodi cynigion diwygiedig i ddiwygio prosesau cyfredol y gyllideb yn unol â'r argymhellion a wnaed yn sgil ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid blaenorol i arferion gorau o ran y gyllideb. Mae'r papur yn cynnig drafft diwygiedig o newidiadau arfaethedig, yn cynnwys y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf.

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar y cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â phroses y gyllideb. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cyflwyno adroddiad ar gyfer cael eu cytundeb arno yr wythnos nesaf.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Cais gan y Pwyllgor Materion Allanol i ymweld â Brwsel

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar gais y Pwyllgor Materion Allanol i Aelodau'r Pwyllgor gael eu hesgusodi rhag bod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 27 Mehefin 2017 er mwyn cynnal cyfarfodydd ym Mrwsel.

## Unrhyw fater arall

- Gan na fyddai'r Dirprwy Lywydd yn bresennol yn ystod y Cyfarfod Llawn yr wythnos hon, byddai'r Comisiynwyr Joyce Watson a Suzy Davies yn cadeirio rhannau o'r ddau Gyfarfod Llawn.

- Roedd Jane Hutt am ddiolch ar gofnod i staff y Comisiwn a oedd wedi helpu i drefnu angladd Rhodri Morgan yn y Senedd ar 31 Mai.

- Hysbysodd David Rowlands y Pwyllgor am farwolaeth Sam Gould yn 33 oed, staff cymorth i Nathan Gill AC.